Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

Gair o'r Garn

Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 74 **Calan 2026**



'Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw'n gytûn.'
(Salm 133:1)

Wythnos Weddi am Undod Cristnogol
18–25 Ionawr 2026

“Un corff sydd, ac un Ysbryd,
yn union fel mai un yw’r gobaith sy’n ymhlyg yn eich galwad.”
(Effesiaid 4:4)

Ar gyfer eleni, mae’r gweddïau a’r myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Gristnogol wedi’u paratoi gan ffyddloniaid Eglwys Apostolaidd Armenia, ynghyd â’u brodyr a’u chwiorydd yn yr Eglwys Gatholig ac Eglwysi Efengylaidd Armenia. Mae’r adnoddau hyn yn seiliedig ar draddodiadau canrifoedd oed o weddi ac ymbil a arferir gan bobl Armenia, ynghyd ag emynau sydd wedi’u gwreiddio ym mynachlogydd ac eglwysi hynafol y wlad, gyda rhai o’r emynau hynny’n deillio o mor bell yn ôl â’r bedwaredd ganrif. Mae’r Wythnos Weddi am Undeb Gristnogol 2026 yn estyn gwahoddiad i elwa ar y dreftadaeth Gristnogol gyffredin hon ac i ymchwilio’n ddyfnach i’n cymdeithas yng Nghrist, sy’n uno Cristnogion ledled y byd.

Mae undod yn ofyniad dwyfol sy’n rhan annatod o’n hunaniaeth Gristnogol. Mae’n cynrychioli hanfod galwad yr Eglwys – galwad i arddangos undod tangnefeddus ein bywyd yng Nghrist yng nghanol ein hamrywiaeth. Mae’r undod dwyfol hwn yn ganolog i’n cenhadaeth ac yn cael ei gynnal gan gariad dwfn Iesu Grist, sydd wedi gosod i ni alwedigaeth unedig.

Trwy gydol yr Ysgrythurau Sanctaidd, mae galwad Duw at undod yn atseinio o’r amseroedd cynharaf. Gan ddechrau gyda’r Hen Destament, mae erfyniad Abram ar Lot yn pwysleisio’r awydd dwyfol am dangnefedd a chytgord ymhlith y ffyddloniaid: ‘Peidied â bod cynnen rhyngom, na rhwng fy mugeiliaid i a’th rai di, oherwydd perthnasau ydym.’ (Genesis 13:8)

Mae galwad Abram am gytgord a pharch o’r ddwy ochr, er gwaethaf y ffaith iddo yntau a Lot ddewis llwybrau gwahanol, yn pwysleisio pwysigrwydd byw mewn heddwch. Mae’r Salmau yn dathlu prydferthwch undod ymhlith pobl Dduw, gan ddatgan, ‘Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw’n gytûn.’ (Salm 133:1)

Yn y Testament Newydd, mae gweddi Iesu yn Ioan 17:21 yn galw ar gredinwyr i fod yn un fel y mae yntau a’r Tad yn un, gan ddangos bod

ein hundod wedi'i wreiddio yn ein perthynas â Christ ac yn ein cenhadaeth ynghyd o rannu'r Newyddion Da. Mae gorchymyn sylfaenol Iesu ar i ni garu ein gilydd fel y mae yntau wedi ein caru ni (Ioan 13: 34–5) yn cadarnhau mai'r cariad hwnnw yw hanfod ein hundod.

Mae epistolau Paul yn pwysleisio pwysigrwydd undod o fewn yr Eglwys, gan ein hannog i fyw yn deilwng o'n galwedigaeth gyda gostyngeiddrwydd, addfwynder, amynedd, a chariad (Effesiaid 4:1–3). Mae Effesiaid 4:4 yn crynhoi dysgeidiaeth Paul ynghylch undod, gan bwysleisio, yma hefyd, bod dilynwyr Crist yn cynrychioli 'un corff ... ac un Ysbryd,' wedi'u huno mewn un gobaith. Mae'r trosiad hwn yn dynodi'r Eglwys yn endid unedig sy'n goresgyn rhwystrau daearyddiaeth, cenedligrwydd, ethnigrwydd a thraddodiad. Mae Paul yn defnyddio'r ddelwedd o'r Eglwys fel Corff Crist i ddisgrifio ei hundod o fewn amrywiaeth ei haelodau.

Gan bwysleisio pwysigrwydd undod Cristnogol, mae Paul yn ychwanegu 'un Ysbryd', gan gyfeirio at yr Ysbryd Glân, sy'n cynnal y gymdeithas honno ac yn grymuso'r Eglwys i gyflawni ei chenhadaeth. Yr Ysbryd Glân yw ffynhonnell bywyd ysbrydol ac arweiniad ymhlith credinwyr, gan sicrhau bod aelodau amrywiol yr Eglwys yn un mewn ffydd a nod. Mae'r Ysbryd yn meithrin cysylltiad dwfn, ysbrydol rhwng credinwyr, gan oresgyn gwahaniaethau a chreu cwlwm sy'n adlewyrchu undod y Drindod Sanctaidd. Mae'r cwlwm ysbrydol cyffredin hwn yn sail i gymod, gan arwain credinwyr ledled y byd a'u cymhwyso ar gyfer tystio a gweinidogaethu'n effeithiol.

Mewn byd gyda thraddodiadau a mynegiadau amrywiol, a rhanedig yn aml, o'r Ffydd Gristnogol, mae Effesiaid 4:4 yn ein hatgoffa bod yr holl gredinwyr yn rhan o 'un corff' Crist. Nid yw'r undod hwn yn fater o unffurfiaeth ond yn hytrach o ymrwymiad cyffredin i wirioneddau craidd y Ffydd Gristnogol. Mae'n dystiolaeth bwerus i rym trawsffurfiol yr Ysbryd Glân pan fo Cristnogion o gefndiroedd amrywiol yn dod ynghyd gyda nod a gweledigaeth gyffredin.

I ddarllen mwy a gweld adnoddau'r Wythnos Weddi, ewch i wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (https://ctbi.org.uk/)

Gair o gydymdeimlad

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf
i Lowri a Watcyn James a'r teulu
ar farwolaeth mam Lowri, Mrs Nesta Davies,
Caerfyrddin, ar 16 Hydref.
Rydym yn meddwl amdanoch yn eich galar a'ch hiraeth.

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

22 Ionawr Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro –
Capel y Morfa a dros Zoom am 1.30 o'r gloch

Pob dymuniad da i'r Parch. Ddr John Tudno Williams, sydd newydd 'ymddeol' ar ôl dros 70 mlynedd o bregethu'r Gair i gynulleidfaoedd mewn eglwysi ledled Cymru, a thu hwnt. Diolch i chi am wasanaeth oes o gyhoeddi'r Efengyl.

Cyfarchion ar Ŵyl y Geni – a Blwyddyn Newydd Dda

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at holl aelodau a cyfeillion eglwysi gofalaeth y Garn. Dymunwn fendithion Gŵyl y Geni i chwi oll, gan hyderu y bydd y flwyddyn newydd hefyd yn un lawn bendithion.

Cofiwn yn arbennig am rai sy'n methu ymuno â ni yn ein hoedfaon oherwydd llesgedd neu afiechyd, yn ogystal ag unrhyw un sy'n wynebu cyfnod anodd yn eu bywyd. Fe'ch cyflwynwn i ofal Duw, gan hyderu y bydd Ei gariad yn eich amgylchynu ac yn gwarchod drosoch.

Ar ddiwedd blwyddyn arall, hoffwn ddiolch am bob cyfraniad i 'Gair o'r Garn' ac am eich anogaeth a'ch cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi.

Tudalen y Plant



Ar ôl i Iesu gael ei eni ym Methlehem, roedd y Brenin Herod yn gas iawn. Doedd hi ddim yn ddiogel i Iesu aros yn y dref. Felly, roedd yn rhaid i Mair a Joseff a'r baban Iesu ffoi. Fe deithion nhw yr holl ffordd i le diogel mewn gwlad arall – yr Aifft.

Fedri di ddod o hyd i lwybr Mair a Joseff a'r baban Iesu yn y llun yma? Dilyn y llinellau gwyn ac arwain nhw i'r lle diogel yn yr Aifft.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Ailstrwythuro

Yn y Gymanfa Gyffredinol yn Llandudno ym mis Gorffennaf 2025, penderfynwyd nodi hydref 2025 hyd y gwanwyn 2026 fel cyfnod ymgynghorol ar gynlluniau i ailstrwythuro Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Mae'r argymhellion wedi'u cynnwys mewn dogfen arbennig, sydd i'w gweld ar wefan yr enwad. Dyma'r ddolen berthnasol: https://www.ebcpcw.cymru/wp-content/uploads/2025/11/Dogfen-Ail-Strwythuro.pdf.

Dywedodd y Parch. Nan Powell-Davies, yr Ysgrifennydd Cyffredinol: 'Rydym yn annog PAWB – yn aelodau, yn flaenoriaid, yn weinidogion ac yn weithwyr – i neilltuo amser penodol i drafod yn weddigar ac i nodi hefyd ymatebion clir a fydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymdeithasfa'r Gwanwyn y flwyddyn nesaf. Bydd hynny'n ein paratoi ar gyfer cyflwyno'r penderfyniadau terfynol yn y Gymanfa Gyffredinol yn 2026. Efallai fod gennym lawer o gwestiynau am hyn – nid y lleiaf ohonyn nhw: pam ailstrwythuro?'

Bydd Nan Powell-Davies yn dod i annerch cyfarfod nesaf yr Henaduriaeth ar 22 Ionawr, pryd bydd cyfle i flaenoriaid yr eglwysi gael rhagor o wybodaeth a thrafod yr argymhellion. Hefyd, bydd cynhadledd arbennig yn cael ei chynnal ar 28 Ionawr yng Nghapel y Groes, Wrecsam, i rannu gwybodaeth a thrafod y cynllun – ac mae croeso i unrhyw un ei mynychu.

Byddem yn ddiolchgar o dderbyn eich sylwadau – drwy ysgrifennydd eich eglwys neu gallwch eu cyflwyno i Marian (Ysg. yr Henaduriaeth).



Plentyn Bethlehem

Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
cofiwn i'th rieni fethu cael lle yn y llety:
gweddïwn dros bawb sy'n ddigartref.

Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
a aned mewn stabl:
gweddïwn dros bawb sy'n byw mewn tlodi.

Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
a wrthodwyd fel dieithryn:
gweddïwn dros bawb sydd yn unig ac ar goll,
a phawb sy'n llefain am eu hanwyliaid.

Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
y ceisiodd Herod dy ladd:
gweddïwn dros bawb sydd mewn perygl
a phawb sy'n cael eu herlid.

Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
a fuost yn ffoadur yn yr Aifft:
gweddïwn dros bawb sydd ymhell oddi cartref.

Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
ynot ti y mae'r Tragwyddol yn trigo:
erfyniwn arnat ein cynorthwyo i weld
y ddelw ddwyfol mewn pobl ym mhob man.

David Blanchflower

(Cyhoeddiadau'r Gair; www.ysgolsul.com)

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

Mae'r apêl eleni yn canolbwyntio ar stori gwraig o'r enw Chance. Pan ddaeth dynion arfog i ysbeilio'i chymuned yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, bu'n rhaid iddi ffoi am ei bywyd gyda'i phlant a'i baban newydd-anedig. I ddarllen mwy am ei hanes a sut i gyfrannu at yr apêl, ewch i: www.christianaid.org.uk/



Gweddi Blwyddyn Newydd

O Dduw ein Tad, ar ddechrau blwyddyn newydd
dyrchafwn ein calonnau atat ti mewn mawl a gweddi.

Diolchwn i ti am holl fendithion y flwyddyn a aeth heibio,
ac am dy gariad a'th gynhaliaeth yn y dyddiau a fu.

Ceisiwn dy fendith ar y dyddiau sydd eto i ddod,
a gofynnwn am dy gymorth ar ein taith drwy fywyd.

Rho inni ras i ddysgu oddi wrth ein camgymeriadau:
amynedd i oddef ein gilydd mewn cariad,
disgyblaeth i feistroli ein chwantau,
nerth i wynebu pob anhawster,
gostyngeiddrwydd i gydnabod pob bai,
ymddiriedaeth yn dy gariad a'th ofal di trosom.

O Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Gwaredwr,
cymer ein hamser, ein nerth, ein doniau a'n talentau,
a helpa ni i'w cysegru er dy ogoniant
ac er adeiladu dy Eglwys yn y byd,
oherwydd yr wyt yn deilwng o'r cyfan a feddwn.

Clyw ein gweddi er mwyn dy enw. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts, *Cymer fy munudau*
(Gol. Aled Davies a Trefor Lewis,
Cyhoeddiadau'r Gair 2021)

Dywedais wrth y dyn oedd yn sefyll wrth borth y flwyddyn, 'Rho oleuni i mi fel y gallaf droedio'n saff i'r anwybod.'

Atebodd fi, 'Dos allan i'r tywyllwch a rho dy law yn llaw Duw. Bydd hyn yn well i ti nag unrhyw oleuni ac yn saffach nag unrhyw ffordd.'

(*Geiriau Cyhoeddus*, Huw John Hughes)

Capel y Garn

Ionawr

Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

4	Gwasanaeth dechrau'r flwyddyn am 10 o'r gloch
7	Chwiorydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs Crefftau Pennau am 2 o'r gloch
11	Oedfa gymun am 10 o'r gloch dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James
16	'Crocs ar y cledrau': taith Interrail Iestyn a Marian Hughes Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
18	Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Parch. John Roberts
25	Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Parch. Peter Thomas

Rhestr Flodau'r Garn

Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer oedfaon y Garn ar y Sul yn ystod 2026, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda.



Diolch i bawb a gyfrannodd flodau yn ystod 2025 – gwerthfawrogir pob cyfraniad.

Capel y Garn

Llongyfarchiadau calonnog:
i Vernon Jones ar gael ei ddewis yn un o lywyddion anrhydeddus Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro ym mis Tachwedd 2025, ac ar ei lwyddiant yng nghystadlaethau barddol yr ŵyl.
Hefyd, pob dymuniad da iddo ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ym mis Chwefror.



Gwyn, gwyn
Yw'r gynnar dorf ar lawr y glyn.
O'r ddaear ddu y nef a'u myn,
Golau a'u pryn o'u gwely pridd,
A rhed y gwanwyn yn ddi-glwy
O'u cyffro hwy uwch cae a ffridd.

(Waldo Williams)

Capel y Garn

Chwefror

Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

1 Oedfa yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Richard Lewis

4 Chwiorydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Crefftau Pennau am 2 o'r gloch

8 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

15 Oedfa am 10 o'r gloch
'Ein pregethwr gwadd heddiw yw …'
Y Parch. Robert O. Roberts (ar sgrin)

20 *Llwch Oged* – dathlu gwaith Vernon Jones
Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch

22 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Wyn Morris

Paned a Sgwrs
yn Neuadd Rhydypennau



Diolch i wirfoddolwyr o'r Noddfa, y Garn, Eglwysi Llangorwen a Llandre, a Neuadd Rhydypennau, bydd te a choffi am ddim yn y neuadd rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd bob bore Gwener.

Croeso cynnes, paned, sgwrs, a chyfle i wneud cyfeillion newydd ac adnewyddu hen gyfeillach.

Dydd Gweddi'r Byd 2026



Lluniwyd y gwasanaeth eleni gan chwiorydd Cristnogol o Nigeria. ac maent yn galw arnom i agosáu at Dduw a gorffwys ynddo. Thema'r gwasanaeth yw: 'Rhoddaf orffwys i chi, dewch' (Mathew 11:28–30). Ynddo rhennir storïau pedair merch o Nigeria sy'n ein hysbrydoli i geisio byd heb anghyfiawnder, ansicrwydd, bod ar y cyrion, erledigaeth grefyddol, tlodi ac anobaith. Wrth inni drystio Duw, sy'n cynnal ein beichiau, rydym yn ymuno fel un corff yng Nghrist, gan dderbyn gorffwystra a'i gyflwyno i'r byd.

Dyluniwyd gwaith celf y clawr blaen gan Gift Amarachi Ottah, myfyrwraig ym Mhrifysgol Ffederal Alex Ekwueme, Ndufu-Alike Ikwo, Talaith Ebony.

Mae'n darlunio sefyllfa merched yn Nigeria wledig o ddydd i ddydd pan fyddant yn gweithio'n galed ac yn ddiddiwedd o fore gwyn tan nos. Bydd y merched yma'n cerdded ar hyd llwybrau peryglus i'w ffermydd, ac yn amlach na pheidio bydd plentyn bach wedi ei glymu ar eu cefn a llwyth trwm yn cydbwyso ar eu pen. Yr un pryd, byddant yn arwain plant eraill drwy dyfiant trwchus ar hyd ffyrdd sydd heb eu cynnal.

Mae'r cynllun hefyd yn dangos tair merch yn eistedd gyda'i gilydd, eu gwisgoedd traddodiadol gwahanol yn cynrychioli diwylliant amrywiol Nigeria. Er eu bod yn hanu o wahanol grwpiau ethnig, mae'r profiadau a rannant yn eu huno â'i gilydd. Er mwyn goroesi i allu cael y pethau mwyaf elfennol, rhaid i'r merched yma wynebu trawma a chynnal beichiau corfforol, emosiynol ac ysbrydol. Er hyn, mae'n bosib cynnal y beichiau hyn wrth i ni ymateb i wahoddiad Iesu i ddod ato a chael gorffwystra ynddo. Pan ddown â'n blinder at Iesu gan gefnogi ein gilydd mewn cymdeithas, fe gawn orffwystra a nerth i ddal ati ar ein taith.

Capel y Garn

Mawrth

Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

1 Oedfa Gŵyl Ddewi am 10 o'r gloch
dan arweiniad Mrs Llinos Dafis

4 Chwiorydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Crefftau Pennau am 2 o'r gloch


8 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad Miss Beti Griffiths

15 Oedfa brynhawn am **2** o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Aled Davies, Chwilog

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7 o'r gloch
Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni'r
Parch. Ddr John Tudno Williams

22 Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd
am 10 o'r gloch

29 *Sul y Blodau*
Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Judith Morris





Llinos Dafis a'i basged wag yn ein hatgoffa yng ngwasanaeth diolchgarwch y Garn o'r prinder mae llawer yn ei wynebu yn ein byd o hyd. Isod, rhai o'r merched gymerodd ran yn y gwasanaeth.



Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Penllwyn



Mae mis Hydref yn draddodiadol yn fis y cyrddau diolchgarwch – cyfle i ddiolch am gynhaeaf ac am roddion hael Duw, ein Creawdwr. Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch Capel Penllwyn eleni ar 26 Hydref, dan ofal Dr Rhidian Griffiths. Cawsom neges amserol a pherthnasol iawn a chyfeiriwyd ein sylw at anogaeth y salmydd i bob un ohonom i gydnabod bendithion Duw. Mae Duw yn hael ei fendithion tuag atom – yn fendithion ysbrydol ac yn fendithion bydol, daearol. Dylem ninnau, yn ein tro, o ystyried bendithion Duw tuag atom ni, ddilyn anogaeth y salmydd. Gorchymyn y salmydd i'w enaid yw ar iddo fendithio yr Arglwydd a pheidio ag anghofio holl roddion ei Greawdwr a'i Waredwr.

Mae'r Gair yn ein hannog i foli Duw am ei haelioni a'i garedigrwydd, ond fe'n hanogir hefyd i ymwneud ag eraill â haelioni sy'n adlewyrchu haelioni Duw tuag atom ni. Cafwyd cyfle yn y cyfarfod diolchgarwch i gyfrannu nwyddau tuag at Fanc Bwyd Penparcau.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a ddaeth i'n cyfarfod ac a gymerodd ran yn y gwasanaeth o ddiolchgarwch ac addoliad. Diolchwn hefyd am bob cyfraniad i'r Banc Bwyd. Yn ddiweddarach yr wythnos honno, aeth cynrychiolaeth o'r capel â'r nwyddau i Benparcau ac fe'u derbyniwyd yn ddiolchgar.

Yn dilyn y cyfarfod cafwyd cyfle i gymdeithasu dros gwpanaid o de a lluniaeth ysgafn.

Delyth Davies



Bore Coffi'r Adfent

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn festri'r Garn fore Sadwrn, 29 Tachwedd. Roedd y trefniadau dan ofal y chwiorydd, a chafwyd cyfle i fwynhau sgwrs hamddenol a hefyd i grafu pen dros gwis darluniadol Iestyn Hughes. Trosglwyddwyd swm o £600 i'r banc bwyd lleol – a diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.





Mwynhau paned, cwmni difyr a chwestiynau heriol y Bore Coffi



Cymdeithas Lenyddol y Garn



Cafwyd noson agoriadol arbennig iawn i dymor newydd Cymdeithas Lenyddol y Garn nos Wener, 17 Hydref. Y gŵr gwadd oedd y darlledwr a'r cyflwynydd poblogaidd Dewi Llwyd, a thestun ei sgwrs, yn addas iawn, oedd 'Pawb a'i Farn'.

Amlinellodd rai o uchafbwyntiau ei yrfa, cyn profi gwybodaeth y gynulleidfa o leisiau rhai enwogion y genedl ar ffurf cwis, a chloi drwy ystyried rhai o'r heriau i ddarlledu a'r iaith Gymraeg yn y dyfodol. Roedd yn gyflwyniad gafaelgar a difyr iawn.

Llywyddwyd y cyfarfod gan gadeirydd y Gymdeithas am eleni, sef Gareth William Jones, ac yn dilyn y cyfarfod mwyhawyd paned a sgwrs yn y festri dan ofal Liz Lloyd Jones a Mair Lewis. Braf oedd gweld cynulleidfa dda wedi dod ynghyd i roi dechrau addawol i dymor arall o'r Gymdeithas.

Yn anffodus, oherwydd salwch, ni fu'n bosib i Georgia Ruth ddod i gynnal ail gyfarfod y Gymdeithas ym mis Tachwedd – ond gobeithir y bydd modd aildrefnu'r noson hon yn fuan.

Stori gyfarwydd mewn lleoliad anarferol – *Jesus Christ Superstar* mewn hen faes awyr yn Berlin

Fis Medi, roeddwn i ar ymweliad â Berlin ac fe fues i'n lwcus i gael tocyn i noson agoriadol cynhyrchiad newydd o'r opera roc *Jesus Christ Superstar*, o waith Andrew Lloyd Webber a Tim Rice. Ond nid llwyfaniad 'arferol' oedd hwn: roedd y sioe mewn neuadd anferth ('hangar') yn hen faes awyr Tempelhof ac yn gynhyrchiad gan y Komische Oper, cwmni opera mwyaf beiddgar ac arbrofol Berlin.

Pan eisteddais yn fy sedd a gweld croes enfawr yn hongian o'r to yng nghanol y llwyfan, gyda goleuadau disgo yn pefrio oddi arni, roedd hi'n amlwg bod hwn am fod yn ddehongliad dewr o'r sioe oedd yn siŵr o greu argraff.

Wrth i'r agorawd daro ac i sain y gerddorfa opera a'r band roc lenwi'r neuadd, fe ruthrodd torf enfawr o dros 350 o ddawnswyr i'r llwyfan. Fe greodd y cast niferus brofiad theatrig na weles i ei fath o'r blaen, gyda hysteria a brad y dorf yn cael eu mynegi yn effeithiol iawn, drwy symudiadau a choreograffi ar raddfa enfawr.



Mae'r sioe yn dweud stori'r wythnos sy'n arwain ar y croeshoeliad, o safbwyntiau Iesu Grist, Mair Magdalen, Jiwdas a gweddill prif gymeriadau'r stori enwog. Cydbwyso rhwng portreadu'r unigolion a mynegi teimladau'r dorf helaeth oedd un o heriau'r cynhyrchiad ac fe lwyddwyd i wneud hynny'n effeithiol, diolch i gymysgu sain gofalus.

Fe ryddhawyd yr albym gysyniadol wreiddiol yn 1970, cyn iddi droi'n sioe lwyddiannus yn Efrog Newydd a Llundain yn y blynyddoedd a ddilynodd. Er bod y deunydd crai yn dangos ei oedran mewn mannau, roedd y cynnwys yn teimlo'n rhyfeddol o ffresh yn y cyd-destun hwn.

Gyda chymaint o sylw i iechyd meddwl yn ein cymdeithas bellach, roedd y straen, yr amheuon a'r gwrthdaro o fewn cymeriad Iesu yn teimlo'n berthnasol iawn, wrth i'n diwylliant ni ofyn cymaint o'n selébs a'n harweinwyr.

Roedd y portread o Caiaphas a'r Phariseaid yn dros ben llestri o ddychanol ac yn tynnu tuag at y *grotesque* – mewn dillad lledr onglog a sodlau uchel ac yn wrthgyferbyniad llwyr i Mair Magdalen deimladwy, gyda'i ffrog goch osgeiddig a phen moel trawiadol.





Cafwyd perfformiadau gwych ar y cyfan, gyda *falsetto* John Arthur Greene yn pefrio fel Iesu, Ilais Bal Arslan yn llwyddo i dorri drwy egni di-baid y cynhyrchiad i greu eiliadau tyner fel Mair Magdalen, a llais garw Sasha di Capri fel Jiwdas yn wrthgyferbyniad effeithiol.

Mae'r cynhyrchiad yn mynd i aros gyda mi am sawl rheswm – y campwaith technegol o sain a goleuo, y lleoliad anarferol, y nodyn top bythgofiadwy yn 'Gethsemane' – ond yn bennaf oherwydd graddfa bur y sioe. Roedd dros 500 o berfformwyr yn cyfrannu, rhwng y gerddorfa, band, y cantorion o fri a'r dros 350 o ddawnswyr.

Roedd y naws yn y neuadd yn drydanol, a gwedd newydd sbon ar yr hen sioe a'r hen stori.

Seiriol Hughes

Chwiorydd y Garn

Paned a sgwrs

Mae'r chwiorydd yn parhau i gyfarfod ar y pnawn cyntaf yn y mis am baned a sgwrs am 2 o'r gloch yng Nghrefftau Pennau. Mae croeso cynnes i bawb, yn wŷr a gwragedd, a derbynnir cyfraniad misol at elusen WaterAid.

Casglu stampiau

Mae'r chwiorydd yn bwriadu casglu stampiau er budd elusen eto eleni. Felly, byddent yn falch o dderbyn unrhyw stampiau wedi'u torri oddi ar amlenni, e.e. eich cardiau Nadolig. Torrwch nhw allan yn ofalus, gan adael ymyl o tua 1cm o'r amlen o amgylch y stamp. Dewch â nhw i Shân Hayward, os gwelwch yn dda, ac yna fe fyddan nhw'n cael eu trosglwyddo er budd Oxfam.



Cymdeithas y Chwiorydd – Rehoboth

Rowland Davies, Dolclettwr, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd brynhawn Mawrth, 9 Medi. Bu'n egluro i ni sut i greu doliau ŷd, a dangosodd enghreifftiau hyfryd o'i waith a greodd ar gyfer priodasau teuluol. Gan ei bod yn hwyr yn y tymor a'r ŷd eisoes wedi ei gynaeafu, defnyddiodd Rowland frwyn wrth egluro'r grefft i ni, ac yna cawsom i gyd gyfle i greu 'cwlwm cariad'. Hefyd, fe wnaeth yntau greu ratl ar gyfer plentyn gyda'r brwyn.

Mae doliau ŷd traddodiadol yn deillio o arfer paganaidd ac mae sôn amdanynt yn gyffredin mewn llên gwerin. Adeg y cynhaeaf roedd yn arferol i ffermwr grefftio dol o ysgub olaf y cynhaeaf gan y credai ei bod yn cario ysbryd cynhaeaf ffrwythlon drwodd i'r gwanwyn nesaf pan fyddai hadau'n cael eu plannu eto. Diolchodd Meinir yn gynnes i Rowland am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Carys Briddon.

Croesawyd Mrs Elaine Williams, Pisgah, i'r cyfarfod ar 14 Hydref. Eglurodd Elaine fod ei gŵr wedi etifeddu casgliad o wyau addurniedig a luniwyd gan ei fodryb a arferai fyw yn Llundain, a'r cyfan wedi eu creu yn arddull wyau enwog Fabergé. Bu hi wrthi am tuag ugain mlynedd ar ôl iddi ymddeol yn creu'r wyau hynod yma gan ddefnyddio wyau ieir, hwyaid, gwyddau ac estrys, a'r cyfan wedi eu haddurno yn hynod gain a lliwgar ganddi.

Cawsom gyfle i astudio'r wyau'n fanwl, a gweld fod rhywbeth hardd tu mewn iddynt yn ogystal, yr un fath â'r hyn a geir mewn wyau Fabergé. Sefydlwyd cwmni gemwaith Fabergé yn Rwsia gan Gustav Fabergé yn 1842, ond Carl Fabergé, y mab, a gychwynnodd greu'r wyau gwerthfawr i'r ymerawdwyr Rwsiaidd yn St Petersburg, Rwsia, o tua 1885 tan 1917, gyda rhai ohonynt yn werth miliynau o bunnau. Diolchwyd i Elaine am ddod â'r holl wyau sydd yn ei chasgliad i'w dangos i ni, a hefyd am adrodd hanes diddorol y cwmni a greodd wyau Fabergé yn y lle cyntaf. Yna mwynhawyd y lluniaeth a baratowyd gan Meinir Fleming a Myfanwy Rowlands.

Estynnwyd croeso i Ffion George i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd. Mae Ffion yn byw yn Llanfihangel-y-Creuddyn ac yn gweithio gyda'i thad ar y fferm adref.



Pan oedd yn Ysgol Penweddig bu'n astudio celf fel pwnc Lefel A. A gan ei bod yn hoff o dynnu lluniau dyna fu'r ysbrydoliaeth iddi ddechrau busnes ei hunan o'r enw 'Llechi Ffion' drwy baentio lluniau o anifeiliaid ar hen lechi. Daeth â nifer o enghreifftiau o'r llechi paentiedig i'w dangos i ni, a diolchwyd yn gynnes iddi am sôn am ei gwaith a rhoi'r cyfle inni weld y gwaith manwl roedd hi wedi ei greu ar y llechi. Paratowyd y te ar y diwedd gan Bethan Davies a Non Griffiths.

Carys Briddon

Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Is-gadeirydd: Glyn Saunders Jones, y Garn
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Mawrth** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com